Adroddiad Rhag-gyllidebol

Yr hyn y mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn ei olygu i Gymru

Rhagfyr 2006

TRYSORLYS EM

Adroddiad Rhag-gyllidebol

Buddsoddi ym mhotensial Prydain: Adeiladu ein dyfodol hirdymor

Amcan y Llywodraeth yw adeiladu economi gref a chymdeithas deg, lle bo cyfle a diogelwch i bawb. Mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn amlinellu sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio i gyflawni'r nod hwn, gan adeiladu ar sail sefydlogrwydd a thwf cyson er mwyn sicrhau y gall Prydain barhau i lwyddo mewn economi byd-eang sy'n fwyfwy cystadleuol. Mae'r daflen hon yn egluro'r hyn y mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn ei olygu i Gymru.

Cynnal economi sefydlog

Mae economi'r byd yn ei gyfnod cryfaf o dwf, ers dros 30 mlynedd. Mae twf economi y DU wedi bod yn fwy na'r disgwyliad ers Cyllideb 2006. Mae hyn wedi'i ysgogi gan dwf pellach mewn buddsoddi ym musnesau'r DU yn ogystal ag adferiad yn nhwf prif economïau Ewrop ac Asia y mae'r DU yn allforio iddynt. Mae diwygiadau economaidd y Llywodraeth wedi parhau i helpu'r DU i gynnal sefydlogrwydd macro-economaidd drwy gydol y cyfnod hwn. Mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn dangos:

- **y disgwylir i'r economi dyfu** 2¾ y cant yn 2005, a 2¾ i 3¼ y cant yn 2007;
- **y bydd chwyddiant yn aros yn isel a sefydlog**; a
- **bod cyllid cyhoeddus yn parhau i fod yn gadarn,** a bod y Llywodraeth yn bodloni ei reolau cyllid. Rhagwelir y bydd benthyg yn £37 biliwn yn 2006-07, a disgwylir iddo ostwng ymhellach, ac mae'r ddyled yn is nag yn yr Unol Daleithiau, Japan, yr Eidal, Ffrainc a'r Almaen.

Datganoli'r broses o wneud penderfyniadau

Mae'r Llywodraeth o'r farn mai'r ffordd orau o wella cynhyrchiant gwledydd a rhanbarthau'r DU, a goresgyn gwahaniaethau rhanbarthol mewn perfformiad economaidd, yw drwy roi rhyddid a hyblygrwydd i bob gwlad a rhanbarth i fanteisio ar ffynonellau twf lleol.

Mae'r Llywodraeth yn hyrwyddo twf economaidd, cyflogaeth lawn a ffyniant i holl bobl Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'u cyrff partner economaidd busnes i annog datblygiad economaidd yng Nghymru, gan gefnogi cyflogaeth, entrepreneuriaeth, arloesedd, sgiliau ac adfywiad. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi ei fframwaith strategol ar gyfer datblygiad economaidd, *Cymru: Economi yn Ffynnu*.

Hyrwyddo mentergarwch, arloesedd a sgiliau

Mae lefelau cyflogaeth Prydain yn uchel, ond yn hanesyddol, mae swm yr allbwn a gynhyrchir fesul gweithiwr – cynhyrchiant – wedi bod yn is na chynhyrchiant prif economïau eraill. Mae perfformiad cymharol Prydain wedi gwella yn y blynyddoedd diweddar, ac mae'r cynhyrchiant bellach yn uwch na'r Almaen ac yn symud yn nes at gynhyrchiant Ffrainc. Bydd economi hyblyg, mentrus a sgiliedig iawn yn helpu i gyflenwi twf cynhyrchiant cyflymach a sicrhau bod y DU mewn sefyllfa dda i ffynnu yn yr economi fyd-eang. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod gwahaniaethau rhanbarthol sylweddol mewn cynhyrchiant. Yn 2005, roedd Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen yng Nghymru 22 y cant islaw cyfartaledd y DU. Mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn cyhoeddi mesurau newydd i wella cynhyrchiant, er mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau mewn meysydd datganoledig o bolisi yng Nghymru:

Cynhyrchiant – allbwn fesul gweithiwr



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

- **mesurau i gefnogi arloesedd ac ymchwil iechyd,** sy'n datblygu argymhellion i gael gwell fframwaith eiddo deallusol a threfniadau newydd i ariannu ymchwil iechyd;
- **datblygu diwygiadau i sicrhau mwy o hyblygrwydd yn y system gynllunio,** yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Kate Barker o Gynllunio Defnydd Tir;
- **mwy o uchelgais i brynu tai â chymorth** drwy gynlluniau ecwiti a rennir;
- **diwygio cynllunio, ariannu a chyflenwi trafnidiaeth,** er mwyn cynyddu'r elw ar fuddsoddiad mewn trafnidiaeth i'r eithaf, gan ddilyn argymhellion Astudiaeth Drafnidiaeth Eddington; ac
- **uchelgais newydd i gael sgiliau o'r radd flaenaf,** yn dilyn cyhoeddi Adolygiad Leitch o Sgiliau.

Cyflenwi cyflogaeth uchel

Nod hirdymor y Llywodraeth yw rhoi cyfle i bawb gael gwaith. Ei nod yw hyrwyddo llafurlu deinamig a hyblyg, lle y mae cyfle i bawb gyflawni ei botensial. Ers 1997, mae'r Fargen Newydd wedi helpu dros 114,000 o bobl i mewn i swyddi yng Nghymru ac wedi helpu i ddarparu mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n ei chael hi'n fwy anodd cael swyddi, megis rhieni unigol a phobl sydd â chyflwr iechyd neu anabledd. Yng Nghymru, mae cyflogaeth wedi codi 11.2 y cant yn y cyfnod hwnnw ac mae diweithdra wedi gostwng 30.6 y cant.

Cyflogaeth yng Nghymru



Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu Llafur (chwarter Mawrth-Mai, weidi'i addasu yn ôl y tymor)

Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno diwygiadau i wella'r cymhelliant i weithio a darparu cymorth i'r rhai sydd ar incwm isel. Mae'r Credyd Treth Gwaith, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2003, yn helpu i sicrhau bod gweithio werth yr ymdrech i bobl sydd ar incwm isel, ac erbyn mis Ebrill 2006, roedd credydau treth yn helpu tua 300,000 o deuluoedd yng Nghymru. Mae cyfradd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i oedolion yn £5.35 erbyn hyn. Mae'r Llywodraeth yn cymryd camau pellach i gyflenwi cyflogaeth uwch yng Nghymru drwy:

- **codi enillion gan ddiystyru Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor yn unol â'r ffactor mynegeio, i £15.45 ym mis Ebrill 2007,** gan sicrhau bod y rhai sy'n ei hawlio yn elwa ar y cynnydd yng nghyfradd y Credydau Treth Gwaith;
- **gwella trefn y Lwfans Ceisio Gwaith** drwy gynnig cymorth chwiliad gwaith arbenigol yn ystod y cam cais newydd, ac ymestyn y Grant Swyddi i geiswyr gwaith rhwng 18 a 24 mlwydd oed, a allai fod o fudd i tua 2,500 o bobl yng Nghymru; a
- **gwella'r broses o orfodi'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol** drwy gynyddu'r adnoddau a ddyrennir o 50 y cant er mwyn ymdrin â'r rhai nad ydynt yn cydymffurfio.

Creu cymdeithas decach

Nod y Llywodraeth yw creu cymdeithas decach lle y caiff pawb gyfrannu at gynyddu ffyniant cenedlaethol a chael rhan ohono. Mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn amlinellu'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â thlodi ymysg plant a phensiynwyr, cefnogi teuluoedd a phlant a hyrwyddo cynilion. Mae'r Llywodraeth hefyd yn parhau i greu system dreth fodern, lle y mae pawb yn talu cyfraniad teg. Cyflwynwyd y Credyd Treth Plant ym mis Ebrill 2003, i gefnogi teuluoedd â phlant, helpu i fynd i'r afael â thlodi ymysg plant, a sicrhau dilyniant mewn incwm i bobl sy'n symud i mewn i waith. Roedd tua 300,000 o deuluoedd yng Nghymru yn elwa ar gredydau treth erbyn mis Ebrill 2006. Mae'r Credyd Pensiwn, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2003, yn rhoi cymorth ychwanegol i bensiynwyr sydd ar incwm isel a chymedrol, ac yn gwobrwyo'r rhai sydd wedi cynilo ar gyfer eu hymddeoliad; Roedd tua 128,000 o gartrefi yng Nghymru yn elwa ar hyn erbyn mis Mai 2006. Yn yr Adroddiad Rhag-gyllidebol, mae'r Llywodraeth yn cymryd camau pellach i hyrwyddo cymdeithas decach, gan gynnwys:

- **cynyddu elfen plant y Credyd Treth Plant o £80 o fis Ebrill 2007 ymlaen,** yn unol â'r ymroddiad i'w gynyddu o leiaf yn unol ag enillion cyfartalog, hyd at ddiwedd y Senedd. Mae tua 300,000 o deuluoedd yn elwa ar gredydau treth yng Nghymru;
- **bydd pob darpar fam yn gymwys i gael Budd-dal Plant o wythnos 29 eu beichiogrwydd o fis Ebrill 2009 ymlaen;**
- **sicrhau bod Cyfrifon Cynilion Unigol yn barhaol** er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr a chynilwyr.
- **mesurau i hyrwyddo tegwch yn y system dreth,** gan gynnwys cymryd camau i ymdrin ag osgoi talu treth.

Cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel

Mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i ddarparu buddsoddiad newydd yng ngwasanaethau cyhoeddus Prydain. Bydd y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus £62 biliwn y flwyddyn yn uwch erbyn 2007-08 o'i gymharu â 2004-05. Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni cynilion effeithlonrwydd o dros £21 biliwn erbyn 2007-08, gan gynnwys lleihau swyddi gweinyddol y gwasanaeth sifil o fwy na 80,000. Bydd hyn yn rhyddhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau y rheng flaen.

Bydd Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2007 yn amlinellu cynlluniau gwariant a blaenoriaethau'r Llywodraeth o 2008-09 i 2010-11, a bydd yn nodi pa fuddsoddiadau a diwygiadau sydd eu hangen yn y DU ar gyfer y dyfodol. Wrth baratoi ar gyfer hyn, mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn datgan y bydd:

- **cyhoeddi adolygiad Syr David Varney o weddnewid gwasanaethau cyhoeddus,** sy'n gwneud argymhellion i gyfuno gwasanaethau cyhoeddus a'u gwneud yn fwy effeithiol ac ymatebol i anghenion defnyddwyr;
- **cynnydd o £165 miliwn** i Lywodraeth Cynulliad Cymru o ganlyniad i'r cynnydd a gyhoeddwyd ar gyfer adrannau'r Llywodraeth. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu sut i ddyrannu'r cynnydd hwn; ac
- **arian o £84 miliwn ar gyfer gwrthderfysgaeth a chudd-wybodaeth.**

Amddiffyn yr amgylchedd

Mae'r Llywodraeth o'r farn fod rhaid cyflawni ffyniant economaidd gan amddiffyn yr amgylchedd ar yr un pryd, er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i genedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i chwarae rhan arweiniol mewn mynd i'r afael â'r heriau byd-eang sy'n ymwneud â newid mewn hinsawdd. Mae hefyd yn ymroddedig i wella'r amgylchedd lleol yn nhrefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig y DU, yn ogystal â hyrwyddo system drafnidiaeth effeithiol ac amgylcheddol gynaliadwy. Mae'r Adroddiad Rhag-gyllidebol yn datgan y bydd:

- **cynyddu pob cyfradd ar y dreth teithwyr awyr, a ddaw i rym o 1 Chwefror 2007 ymlaen,** er mwyn cydnabod y costau amgylcheddol a ddaw yn sgil hedfan;
- **uchelgais i bob cartref newydd fod heb unrhyw garbon erbyn 2016,** gan eithrio'r Doll Stampiau am gyfnod penodol ar gyfer y mwyafrif llethol o gartrefi newydd sydd heb unrhyw garbon;
- **cynyddu prif dollau tanwydd ffordd yn unol â chwyddiant;** a
- **mesurau i hyrwyddo defnyddio tanwydd glanach,** gan gynnwys cymorth i ddatblygu biodanwydd.

Lle y caiff arian trethdalwyr ei wario

Disgwylir i gyfanswm gwario cyhoeddus eleni fod oddeutu £555 biliwn, tua £920 ar gyfer pob dyn, dynes a phlentyn yn y DU. Bydd yn debygol o godi i £585 biliwn yn 2007-08.

Lle y caiff arian trethdalwyr ei wario



Cyfanswm y gwariant a reolir - £555 biliwn

[1] Mae 'gwariant arall' yn cynnwys y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus cyffredinol, hamdden, diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, cydweithrediad a datblygiad rhyngwladol, pensiynau gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â'r gwariant sydd eto i'w ddyrannu a rhai addasiadau cyfrifyddu.

[2] Mae 'amddiffyn cymdeithasol' yn cynnwys taliadau credyd treth sy'n ychwanegol at atebolrwydd treth unigolyn.

Ffynhonnell: Trysorlys EM, amcanestyniadau arian tymor byr 2006-07. Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm gan eu bod wedi'u talgrynnu.

O ble y daw trethi



Cyfanswm derbynebau - £518 biliwn

[1] Mae 'arall' yn cynnwys trethi cyfalaf, tollau stampiau, tollau cerbydau ecséis a rhai derbynebau treth a di-dreth eraill (e.e. llog a buddrannau).

Ffynhonnell: Trysorlys EM, amcanestyniadau 2006-07. Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm gan eu bod wedi'u talgrynnu.

© Hawlfraint y Goron 2006